**Datganiad Newyddion**

**Dydd Iau, 22 Medi 2022**

**I'w ddefnyddio ar unwaith**

## Growth Track 360 yn annog Llywodraeth y DU i dynnu contract rheilffordd teithwyr Arfordir y Gorllewin oddi wrth Avanti West Coast

Mae arweinwyr busnes ac awdurdod lleol o Ogledd Cymru, Cilgwri, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn y bartneriaeth Growth Track 360 yn annog Adran Drafnidiaeth y DU i dynnu contract i weithredu gwasanaethau trên i deithwyr Arfordir y Gorllewin oddi ar Avanti West Coast Ltd, yn dilyn dileu holl drenau uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Llundain.

Dim ond un gwasanaeth uniongyrchol bob dydd sydd yn rhedeg ar hyn o bryd rhwng Llundain a Chaer a Wrecsam gyda gwasanaeth gwennol yn cysylltu Crewe a Chaergybi drwy Gaer.

Wrth weithredu gostyngiadau gwasanaeth ar draws ei rwydwaith ar Arfordir y Gorllewin ym mis Awst, dywedodd Avanti West Coast bod y rhain o ganlyniad i'r hinsawdd cysylltiadau diwydiannol, prinder difrifol o ran staff, lefelau salwch uwch, yn ogystal â'r ffaith nad yw mwyafrif y gyrwyr ar gael i weithio goramser, a hynny mewn modd cydlynol ar fyr rybudd.

Gwnaeth Growth Track 360 sylwadau i Weinidog Gwladol Rheilffyrdd y DU ym mis Awst, gan eu hannog i roi pwysau ar Avanti i adfer - neu adfer yn rhannol - y gwasanaethau uniongyrchol rhwng Llundain, Caer a Gogledd Cymru ond nid yw'r cwmni wedi gwneud unrhyw gynnydd.

Dywedodd Cadeirydd Growth Track 360, y Cynghorydd Louise Gittins, Arweinydd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer:

*"Rydym yn ddigalon a siomedig bod pob gwasanaeth trên uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru, Caer a Llundain wedi'u terfynu, gyda dim ond un trên bob dydd yn cysylltu Caer a Wrecsam gyda Llundain. Mae'r toriadau hyn wedi achosi difrod difesur i'n heconomi rhanbarthol trawsffiniol yn ystod y prif dymor gwyliau. Mae Avanti wedi dangos o ddechrau ei fasnachfraint nad yw'n gallu bodloni'r dasg o reoli ei faterion busnes yn fedrus, felly dylai Llywodraeth y DU - fel ei gwsmer - ganslo'r fasnachfraint sy'n gweithredu Arfordir y Gorllewin ar unwaith."*

Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ac Is-gadeirydd Growth Track 360, y Cynghorydd Ian Roberts:

*"Mae arweinwyr dinesig yng Ngogledd Cymru a chymunedau gerllaw yng Ngogledd-Orllewin Lloegr wedi gweithio'n galed i adeiladu perthynas cydweithredol gydag Avanti, ond mae gweithrediadau eu rheolwyr wedi dangos eu bod yn ystyried ein prif lein Caer a Gogledd Cymru fel cangen dibwys. Mae'n siomedig sylweddoli fod yr un cwmni wedi derbyn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau trên i deithwyr ar HS2. Rhaid i Adran Drafnidiaeth y DU reoli argyfwng Avanti West Coast drwy roi ei lwybrau o dan*

*reolaeth Gweithredwr yn Niffyg Dim Arall y sector gyhoeddus, sydd wedi delio â methiannau tebyg gan weithredwyr mewn rhannau eraill o Brydain yn dda."*

Meddai Cynrychiolydd Busnes o Growth Track 360, Ashley Rogers, Prif Weithredwr Cyngor Busnes Merswy a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru:

*"Ni allwn aros yn dawel tra bod ein cyrchfannau twristiaeth Gogledd Cymru a Merswy a'r Ddyfrdwy yn paratoi ar gyfer y tymor gwyliau nesaf heb y rhagolygon o amserlen llawn o wasanaethau trên uniongyrchol Llundain, Caer a Gogledd Cymru. Rhaid i Lywodraeth y DU sefyll i fyny ar gyfer ein heconomi a'n busnesau rhanbarthol trawsffiniol. Rhaid newid rheolaeth ar unwaith ar gyfer Prif Lein Arfordir y Gorllewin, fel arall bydd ein rhanbarth yn parhau i dalu'r pris gyda cholled mewn twf economaidd pan rydym ei angen fwyaf."*

**DIWEDD**

**Nodiadau i Olygyddion:**

1. Mae Growth Track 360 yn bartneriaeth cyhoeddus-preifat a sefydlwyd yn 2016 sy'n uno gogledd Cymru, Cilgwri a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Ei nod yw gwella cysylltedd cludiant trawsffiniol gyda phwyslais arbennig ar reilffyrdd.

2. Mae Growth Track 360 yn gweithio'n agos gyda budd-ddeiliaid allweddol, eu polisïau a'u hamcanion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Transport for the North, Awdurdod Cyfunol Rhanbarth Dinas Lerpwl, Cynghrair Merswy a'r Ddyfrdwy, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Fforwm Cludiant Cymru a Gorllewin Lloegr, a'r sector preifat.

**<u>Cysylltiadau</u>**


- Y Cynghorydd Louise Gittins, Cadeirydd GT360, Arweinydd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer: Rhif ffôn: 01244 972216 E-bost: pressoffice@cheshirewestandchester.gov.uk

- Y Cynghorydd Ian Roberts, Is-gadeirydd GT360, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint: Rhif ffôn: 01352 702115 E-bost: lisa.williams@flintshire.gov.uk

- Ashley Rogers, Cynrychiolydd Busnes GT360, Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy a'r Ddyfrdwy: Rhif ffôn: 0797 047 6599
  E-bost: jarogers@nwmdbusinesscouncil.org